Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Penycae Childcare

**Ysgol Gynradd Penycae, Copperas Hill**
**Penycae**
**Wrecsam**
**LL14 2SD**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2024**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**ac**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Penycae Childcare

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Penycae Childcare |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | Sandra Williams |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Tim Newbould |
| Person â gofal | Sandra Williams |
| Nifer y lleoedd | 40 |
| Ystod oedran y plant | 2 i 11 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 29 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 13 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | 9.00 – 5.00pm |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Saesneg |
| A yw'r lleoliad yn gweithredu'r Cynnig Gofal Plant? | Oes |
| Cynnig Rhagweithiol y Gymraeg | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 9 Ionawr 2020 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Hwn yw arolygiad cyntaf Estyn o'r lleoliad |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 11/06/2024 |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Digonol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol** |

## Diffyg cydymffurfio

Fe wnaethom hysbysu'r darparwr nad oedd y lleoliad yn cydymffurfio â'r Rheoliadau. Ni chyflwynwyd rhybudd, ond nodwyd bod y rhain yn feysydd i'w gwella, a rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol fynd i'r afael â'r rhain. Bydd gwybodaeth am yr holl achosion o ddiffyg cydymffurfio yn cael ei chynnwys mewn Crynodeb Camau Gwella a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGC yn unig.

## Argymhellion

A1 Mynd i'r afael â'r meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd yn ystod yr arolygiad

A2 Sicrhau bod gweithdrefnau monitro yn ddigon trylwyr i nodi'r holl feysydd i'w gwella

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae bron pob un o'r plant yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau ynglŷn â ble maent yn chwarae. Maent yn dewis pa adnoddau y maent eisiau eu defnyddio a gyda phwy maent eisiau chwarae. Mae gan y rhan fwyaf o blant lais cryf ac maent yn hyderus i siarad gan eu bod yn gwybod y bydd rhywun yn gwrando arnynt. Er enghraifft, os yw plant yn gofyn am fwy o laeth, yn gofyn am gymorth neu angen sicrwydd, ymatebir iddynt yn brydlon.

Mae bron pob un o'r plant yn teimlo'n hapus ac yn mynd ati'n gyflym i ymgymryd â gweithgareddau. Mae llawer ohonynt wedi datblygu perthnasoedd cadarnhaol gydag ymarferwyr ac yn eu hadnabod yn dda. Mae plant yn llawn cyffro i afael yn llaw ymarferwyr i'w harwain at eu gweithgareddau o'u dewis ac yn mwynhau cael cwtshys. Mae bron pob un o'r plant yn gyfarwydd â threfn y lleoliad. Er enghraifft, mae'r rhan fwyaf o blant yn gwybod i olchi eu dwylo cyn brwsio'u dannedd a bwyta'u byrbryd, ac yn gwisgo'u cotiau yn annibynnol cyn mynd y tu allan. Mae'r arferion rhagweladwy hyn yn helpu plant i deimlo'n ddiogel gan eu bod yn gwybod beth sy'n dod nesaf ac yn magu eu hyder a'u hymdeimlad o berthyn.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn rhyngweithio'n dda. Mae llawer ohonynt yn rhannu adnoddau ag annibyniaeth gynyddol ac ychydig ohonynt yn cymryd eu tro yn annibynnol. Mae'r rhan fwyaf o blant yn cael sgyrsiau ystyrlon gydag ymarferwyr am bethau sy'n bwysig iddynt, fel eu hanifeiliaid anwes a'u hoff fwydydd. Mae'r rhan fwyaf o blant yn hyderus a chyfeillgar wrth gyfarfod ag oedolion ac ymwelwyr newydd, gan ymuno'n hyderus mewn sgyrsiau gwerthfawr.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn dangos lefelau da o ymgysylltu ac yn ddysgwyr gweithgar. Maent yn canolbwyntio'n ddiwyd ar weithgareddau sydd o ddiddordeb iddynt. Maent yn elwa ar gyfnodau hir o chwarae di-dor a'r hygyrchedd hawdd i gasglu'r adnoddau sydd eu hangen arnynt i ymestyn eu chwarae. Maent yn ymhyfrydu yn eu cynigion creadigol ac yn mwynhau gweld eu gwaith yn cael ei arddangos ar y wal i'w ffrindiau ei weld. Mae'r rhan fwyaf o blant yn canu caneuon yn frwdfrydig. Maent yn cymryd rhan yn dda yn ystod storïau ac yn mwynhau ymuno wrth ddefnyddio propiau cyfarwydd.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu ystod ddefnyddiol o fedrau ac yn dangos lefel dda o annibyniaeth. Adeg byrbryd, mae llawer o blant yn dechrau defnyddio cyllyll i dorri eu bananas a thywallt eu diodydd eu hunain. Maent yn tacluso'u cwpanau budr ac yn taflu bwyd nad oes ei eisiau, gyda chymorth. Mae'r rhan fwyaf o blant yn ddysgwyr chwilfrydig, ymgysylltiedig, sy'n elwa ar ddigonedd o gyfnodau estynedig o gyfleoedd chwarae wedi'u harwain gan blant.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae bron pob un o'r plant yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn unigol. Maent yn mwynhau eu dysgu ac yn dangos brwdfrydedd yn eu gweithgareddau. Mae bron pob un o'r plant yn datblygu eu medrau annibynnol yn dda trwy'r cyfleoedd y mae ymarferwyr yn eu cynnig iddynt. Mae ganddynt foesau da, yn gwrtais, ac yn gofalu am eu pethau eu hunain. Maent yn datblygu medrau cymdeithasol ac emosiynol effeithiol ac yn cydweithredu'n dda â'i gilydd wrth iddynt chwarae.

Mae medrau cyfathrebu'r rhan fwyaf o blant yn dda. Maent yn defnyddio iaith briodol mewn chwarae strwythuredig a digymell ac yn mynegi eu hunain yn hyderus. Mae ychydig o blant yn defnyddio ystod eang o eirfa, er enghraifft wrth siarad am drychfilod a chwilod yn yr awyr agored. Mae'r rhan fwyaf o blant yn mwynhau creu marciau ac yn datblygu eu medrau ysgrifennu'n gynnar yn briodol. Maent yn mwynhau archwilio creu marciau gan ddefnyddio sialciau a chreonau, ac mae ychydig ohonynt yn dechrau deall bod ystyr i farciau.

Mae medrau darllen cynnar y rhan fwyaf o blant yn datblygu'n dda. Mae'r mwyafrif ohonynt yn dechrau adnabod eu henw eu hunain yn hyderus, er enghraifft wrth ddod o hyd i'w henw yn ystod amser cofrestru ac amser byrbryd. Mae bron pob un o'r plant yn dangos diddordeb mewn llyfrau ac yn mwynhau gwrando ar storïau neu lyfrau gwybodaeth sy'n cael eu darllen iddynt gan ymarferwyr. Dangosant fwynhad amlwg wrth drin a thrafod llyfrau yn annibynnol, troi'r tudalennau yn eu trefn a siarad am y cymeriadau a'r lluniau gyda'u ffrindiau. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn gwrando'n astud

ac yn dilyn cyfarwyddiadau'n ofalus, er enghraifft y rhai sy'n eu helpu i dacluso'r lleoliad, ac yn ymuno'n hyderus â gweithgareddau grŵp mawr.

Mae medrau Cymraeg bron pob un o'r plant yn datblygu'n dda. Maent yn mwynhau ymuno i ganu caneuon a rhigymau fel rhan o'u harferion dyddiol. Maent yn cyfrif ac yn siarad am y tywydd yn frwdfrydig ac mae llawer ohonynt yn deall geiriau Cymraeg cyfarwydd ac ymadroddion syml.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu ystod werthfawr o fedrau rhifedd ac yn defnyddio'r rhain yn eu chwarae yn llwyddiannus. Maent yn siarad am feintiau gwrthrychau ac yn defnyddio iaith fathemategol yn ystod eu chwarae yn hyderus. Er enghraifft, wrth chwarae yn yr awyr agored, maent yn defnyddio tâp mesur i fesur hyd y twnnel chwarae, gan siarad yn hyderus ac adnabod rhifau i ddeg a thu hwnt.

Mae bron pob un o'r plant yn datblygu eu medrau corfforol yn effeithiol. Maent yn pedlo beiciau ac yn gwthio berfâu a phramiau o gwmpas yr ardal yn yr awyr agored yn llwyddiannus. Maent yn datblygu eu cydbwysedd a'u cydsymud trwy weithgareddau fel cloddio, dringo ysgolion a balansio ar hyd teiars. Mae llawer o blant yn datblygu medrau echddygol manwl da ac yn gwneud dewisiadau hyderus am yr adnoddau a ddefnyddiant. Er enghraifft, maent yn trin toes i greu siapiau a modelau, ac yn trin amrywiaeth o gynwysyddion o wahanol feintiau wrth chwarae yn yr ardaloedd tywod a dŵr yn hyderus.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu eu medrau creadigol yn dda. Cânt gyfleoedd gwerthfawr i fynegi eu hunain trwy grefft, cerddoriaeth a symud. Maent yn mwynhau sesiynau ioga ac yn frwdfrydig wrth chwarae â mwd yn yr ardal goedwig.

Mae medrau digidol y rhan fwyaf o blant yn datblygu'n dda. Defnyddiant ystod o switshys a theganau electronig â hyder, er enghraifft wrth ffugio gwneud galwadau ffôn, defnyddio tortshis neu bwyso botymau i chwarae lleisiau wedi'u recordio.

**Gofal a datblygiad: Da**

Mae ymarferwyr yn dilyn polisïau a gweithdrefnau priodol, sy'n annog ffyrdd iach o fyw ac yn hyrwyddo diogelwch a lles plant yn effeithiol. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn annog plant yn rheolaidd i gymryd rhan mewn cyfleoedd chwarae yn yr awyr agored a bwyta byrbryd iach. Maent yn darparu opsiynau cytbwys o ran bwyd a diod ac yn annog y plant i roi cynnig ar flasau a gweadau newydd. Mae ymarferwyr yn cyflwyno rhaglen brwsio dannedd, sy'n helpu plant i wella iechyd y geg.

Mae ymarferwyr yn rheoli rhyngweithio plant yn dda ac yn gyson. Maent yn dilyn polisi ymddygiad clir ac yn meithrin perthnasoedd cadarnhaol rhyngddyn nhw eu hunain a'r plant. Mae ymarferwyr yn defnyddio atgyfnerthu cadarnhaol yn llwyddiannus, er enghraifft i ganmol plant am ddilyn cyfarwyddiadau neu dacluso adnoddau o'r neilltu. Mae ymarferwyr yn cynnig esboniadau clir sy'n helpu plant i ddatblygu synnwyr o dda a drwg. Maent yn eu helpu i ddeall sut gall eu gweithredoedd effeithio ar bobl eraill. Er enghraifft, maent yn esbonio'n dyner fod rhaid iddynt fod yn ofalus i beidio â gwlychu eu ffrindiau wrth ddefnyddio potel chwistrellu dŵr, ac yn ystyried sut gallai hyn wneud iddynt deimlo.

Mae ymarferwyr yn anogol a charedig. Maent yn sensitif i anghenion unigol plant ac yn darparu gofal a chymorth da. Mae ymarferwyr yn sylwi'n gyflym ar newidiadau yn ymddygiadau plant ac yn darparu cymorth effeithiol, pan fydd angen. Mae ymarferwyr yn defnyddio arwyddion i gefnogi medrau cyfathrebu plant yn dda. Mae'r arwyddion a'r ystumiau hyn ochr yn ochr â geiriau llafar yn rhoi cliwiau gweledol ychwanegol i blant ac yn cynorthwyo'u dealltwriaeth.

Mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr yn meddu ar ddealltwriaeth ddigonol o weithdrefnau diogelu. Maent yn deall eu cyfrifoldebau i roi gwybod am unrhyw bryderon ynghylch amddiffyn plant ac yn gyfarwydd â'r polisi. Mae ymarferwyr yn cwblhau cofnodion damweiniau a digwyddiadau yn effeithiol ac yn rhannu'r rhain yn brydlon â rhieni. Mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr yn dilyn arferion hylendid priodol, yn cynnwys wrth weini bwyd a newid clytiau. Fodd bynnag, ni chaiff y cofnodion presenoldeb ar gyfer plant ac ymarferwyr eu cynnal yn ddigon da, ac o ganlyniad, nid yw arweinwyr bob amser yn gwybod faint o'r gloch y mae plant a staff yn cyrraedd ac yn gadael y lleoliad. O ganlyniad, nid yw trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu yn bodloni'r gofynion ac maent yn peri pryder. Nid yw arweinwyr yn annog diwylliant o gadw plant yn ddiogel mewn cyd-destun ehangach, yn cynnwys diogelwch rhag tân a chynnal cofnodion hanfodol.

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth dda o blant ag anghenion dysgu ychwanegol. Maent yn olrhain eu cynnydd yn effeithiol ac yn rhoi camau ar waith er mwyn i blant allu cyflawni eu targedau a'u nodau unigol. Mae ymarferwyr yn brofiadol, a phan fydd angen, maent yn gofyn am gymorth a chyngor buddiol gan asiantaethau allanol i sicrhau bod plant yn gwneud cynnydd priodol.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae ymarferwyr yn meddu ar ddealltwriaeth dda o ddatblygiad plant a sut mae plant yn dysgu. Maent yn darparu amrywiaeth ddiddorol o brofiadau dysgu o ansawdd da y maent yn eu paru'n dda â diddordebau a chamau datblygu plant. Mae ymarferwyr yn ymateb yn llwyddiannus i ethos a disgwyliadau Cwricwlwm i Gymru.

Mae gan ymarferwyr ddisgwyliadau uchel o blant ac yn gwybod yn dda beth yw eu cryfderau a'u hanghenion unigol. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon i'w hannog i ddatblygu eu medrau datrys problemau a meddwl trwy ystod o adnoddau a phrofiadau gwerthfawr. Maent yn ymuno'n frwdfrydig ac yn naturiol â'r plant yn ystod eu chwarae ac yn modelu ymddygiadau cadarnhaol fel cymryd tro, rhannu a siarad am eu diddordebau.

Mae ymarferwyr yn cynllunio gweithgareddau tra ystyriol sy'n galluogi plant i ddatblygu ystod eang o fedrau yn raddol ym mhob maes. Maent yn sicrhau bod mwyafrif y gweithgareddau wedi'u seilio ar ddiddordebau plant ac yn cael eu hysgogi gan y plentyn. Mae hyn yn galluogi plant i gael llais yn yr hyn y maent yn dysgu amdano. Er enghraifft, wrth ddilyn diddordebau plant mewn plannu a thyfu, rhoesant gyfleoedd buddiol i blant blannu a thyfu eu llysiau eu hunain yn ardal awyr agored y lleoliad.

Mae ymarferwyr yn cynorthwyo plant i wneud dewisiadau pwyllog yn lefel yr her a'r risg yn ystod eu chwarae. Er enghraifft, maent yn darparu adnoddau sy'n hyrwyddo chwarae mentrus ac yn datblygu eu cydbwysedd a'u cydsymud, fel ysgolion a phlatfformau i blant ddringo a llywio.

Un o nodweddion cryf y ddarpariaeth yw'r rhyngweithio o ansawdd da rhwng plant ac ymarferwyr. Maent yn cefnogi medrau meddwl plant trwy ddefnyddio cwestiynau sy'n eu hannog i ymestyn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn annog plant i ofyn cwestiynau, gwneud arsylwadau a dysgu am y pryfed brigyn y maent yn eu cadw fel anifeiliaid anwes. Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd pwrpasol i blant brofi parchedig ofn a rhyfeddod. Er enghraifft, maent yn annog plant i wneud arsylwadau gofalus o'r trychfilod y maent yn dod o hyd iddynt yn yr ardd awyr agored, fel ieir bach yr haf a gwyfynod.

Mae ymarferwyr yn hyrwyddo cariad at ddarllen yn dda. Maent yn darllen storïau iddynt pryd bynnag y bydd y cyfle'n codi ac yn modelu gwerthfawrogiad cryf am storïau a llyfrau. Maent yn rhoi cyfleoedd buddiol i blant drin a thrafod llyfrau a storïau, yn cynnwys storïau Cymraeg. Mae ymarferwyr yn hyrwyddo'r Gymraeg yn effeithiol. Maent yn darparu digonedd o gyfleoedd i blant glywed y Gymraeg trwy gydol y sesiwn. Maent yn modelu patrymau iaith syml yn glir ac yn ennyn diddordeb plant mewn gweithgareddau fel cyfrif, cyflwyno gair Cymraeg yr wythnos a defnyddio pypedau a modelau i ddyfnhau dealltwriaeth plant. Maent yn modelu geirfa Gymraeg ac ymadroddion syml yn ystod gweithgareddau grŵp ac yn achlysurol trwy gydol y dydd. Mae ymarferwyr yn annog plant yn frwdfrydig i ymuno â chanu ystod o ganeuon a rhigymau Cymraeg, sy'n cefnogi datblygiad eu medrau Cymraeg yn hynod effeithiol.

Yn ystod amser byrbryd, mae ymarferwyr yn annog plant i ddatblygu eu medrau annibyniaeth yn llwyddiannus. Maent yn eu hannog i dywallt eu diodydd eu hunain, rhoi menyn ar fara, ac yn eu cynorthwyo i glirio'u llestri o'r neilltu ac ailgylchu gwastraff bwyd. Maent yn eistedd ochr yn ochr â phlant ac yn ennyn eu diddordeb mewn trafodaethau gwerthfawr sy'n cael eu harwain gan ddiddordebau plant.

Mae ymarferwyr yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn dda am gynnydd eu plant trwy blatfform cyfryngau cymdeithasol a sgyrsiau rheolaidd. Mae ymarferwyr yn defnyddio'r ardal leol, fel y parc a'r goedwig, i ddatblygu dealltwriaeth plant o'r byd o'u cwmpas yn effeithiol. Maent yn annog plant i ddatblygu cyfeillgarwch ar sail caredigrwydd, ac maent yn dathlu gwahanol ddiwylliannau ac arferion yn rheolaidd. Mae hyn yn cefnogi datblygiad cymdeithasol, diwylliannol a moesol plant yn llwyddiannus.

**Yr amgylchedd: Digonol**

At ei gilydd, mae arweinwyr yn dilyn gweithdrefnau diogelwch i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel a saff. Maent yn sicrhau bod system ddiogel ar waith i reoli mynediad i'r lleoliad trwy gatiau a mynedfeydd sy'n cael eu cadw dan glo, a gofynnir i ymwelwyr lofnodi'r llyfr ymwelwyr er mwyn cyfrif am bob un o'r oedolion. Fodd bynnag, ni ddilynir y weithdrefn hon yn ddigon da yn gyson.

Caiff asesiadau risg ysgrifenedig eu hadolygu'n flynyddol, maent yn nodi'r rhan fwyaf o'r peryglon ac mae mesurau rheoli priodol ar waith i leihau risg i'r eithaf. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr bob amser yn sicrhau bod mynediad i'r ardal awyr agored yn ddiogel gan fod yr ardal hon yn cael ei rhannu â'r ysgol. Mae arweinwyr yn cynnal ac yn cofnodi ymarferion gadael mewn tân. Fodd bynnag, ni chynhelir y rhain yn ddigon rheolaidd ac nid yw'r dogfennau angenrheidiol ar waith o ran risgiau tân posibl. O ganlyniad, nid yw plant ac ymarferwyr mor barod ag y gallent fod ynglŷn â beth i'w wneud mewn argyfwng.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod y lleoliad yn groesawgar a golau gyda digonedd o oleuni naturiol, ac wedi'i addurno mewn arddull naturiol, sy'n creu amgylchedd tawel a heddychlon. Mae ardaloedd yn ddigon glân ac yn cael eu cynnal yn briodol. Mae ymarferwyr wedi trefnu adnoddau a dodrefn yn llwyddiannus i sicrhau bod gan blant ddigon o ofod i symud o gwmpas a chwarae'n rhydd. Mae'r rhan fwyaf o adnoddau'n hawdd i blant eu defnyddio'u hunain, sy'n annog annibyniaeth ac yn eu galluogi i ddilyn eu harweiniad eu hunain. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod ardaloedd tawel i blant orffwys ac ymlacio ynddynt, yn ogystal ag ardaloedd iddynt chwarae a bod yn egnïol. Mae adnoddau wedi'u gosod yn ystyriol ac yn amrywiol ac yn bodloni diddordebau plant yn dda.

Mae ymarferwyr yn sicrhau bod plant yn cael mynediad wythnosol i ardal goedwig ac yn darparu ystod dda o gyfleoedd diddorol ac ysgogol i blant archwilio. Maent yn annog plant i ddefnyddio'r ardal yn yr awyr agored, sy'n cynnwys ystod dda o adnoddau sy'n briodol i oedran, fel pympiau dŵr, beiciau a chyfleoedd cloddio sy'n cefnogi diddordebau a datblygiad plant yn dda. Mae ymarferwyr yn hyrwyddo mentro pwyllog yn ofalus, fel caniatáu i blant ddringo a balansio ar yr offer o uchder, a defnyddio siswrn yn annibynnol.

Mae arweinwyr yn darparu dodrefn, teganau ac adnoddau i blant sydd o ansawdd da, yn lân, ac yn cael eu cynnal a chadw yn dda. Maent yn gwella'r amgylchedd dysgu yn dda, gan sicrhau bod plant yn gallu defnyddio ystod eang o deganau ac offer sy'n eu helpu i fod yn chwilfrydig a datblygu ystod eang o fedrau. Mae ymarferwyr yn defnyddio teganau ac adnoddau yn briodol i addysgu plant am wahanol ddiwylliannau. Er enghraifft, maent yn defnyddio storïau diddorol i ddatblygu ymwybyddiaeth plant o fywyd mewn gwlad arall.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Digonol**

Mae gan arweinwyr ac ymarferwyr weledigaeth glir sydd wedi'i seilio ar greu amgylchedd croesawgar ac anogol lle caiff plant gyfleoedd i elwa ar ystod eang o gyfleoedd sy'n adlewyrchu ac yn datblygu eu diddordebau yn dda. Maent yn rhannu ac yn cyfleu'r weledigaeth hon ar gyfer y lleoliad yn llwyddiannus trwy'r perthnasoedd cryf y maent wedi'u datblygu â'r plant a'u teuluoedd. Mae gan y lleoliad ddatganiad diben clir, sy'n hysbysu rhieni'n dda am yr hyn sydd gan y lleoliad i'w gynnig.

Mae arweinwyr yn gwneud defnydd digonol o ymarferwyr ac adnoddau i gefnogi dysgu, chwarae a lles plant, a cheir ymrwymiad cryf i waith tîm. Maent yn sicrhau eu bod yn bodloni cymarebau gofynnol oedolyn i blentyn a bod plant yn cael eu

goruchwylio'n dda. Mae ymarferwyr yn gweithio'n ddiwyd i leihau effaith ardal awyr agored a rennir ar chwarae a datblygiad plant i'r eithaf. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn sicrhau bod egwylion rheolaidd i staff yn cael eu hystyried yn arferion bob dydd y lleoliad. O ganlyniad, ni all staff gymryd eu hegwylion gofynnol yn ystod eu diwrnod gweithio.

Mae gan y lleoliad ystod o bolisïau a gweithdrefnau sy'n cael eu dilyn yn briodol gan ymarferwyr. Mae ymarferwyr yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau ac yn gweithio'n dda i sicrhau bod y lleoliad yn rhedeg yn esmwyth. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn sicrhau bod yr holl bolisïau a gweithdrefnau pwysig ar waith ac y glynir atynt yn briodol.

At ei gilydd, mae arweinwyr yn gwneud defnydd da o'r cyllid y mae'r lleoliad yn ei dderbyn i fuddsoddi mewn adnoddau o ansawdd da sy'n darparu amgylchedd heriol, ysgogol a chyffrous ar gyfer plant. Er enghraifft, mae prynu adnoddau naturiol a gwaith coed yn annog plant i ddatblygu medrau datrys problemau a medrau corfforol gwerthfawr yn yr awyr agored.

Mae gan arweinwyr weithdrefnau addas i werthuso gwaith y lleoliad a nodi'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella yn briodol. Maent yn ystyried barn rhanddeiliaid wrth gynllunio ar gyfer gwella. Ar hyn o bryd, nid yw pob aelod o staff yn cael arfarniadau addas. O ganlyniad, nid ydynt bob amser yn gwybod beth sy'n ddisgwyliedig ohonynt, na pha gamau y mae angen iddynt eu cymryd i sicrhau gwelliannau a chydymffurfio â rheoliadau, fel cyflwyno gwybodaeth i AGC o fewn y cyfnodau gofynnol.

Mae arweinwyr wedi datblygu perthnasoedd gwerthfawr â rhieni ac yn rhannu gwybodaeth ddefnyddiol gyda nhw am ddatblygiad a chynnydd eu plentyn. Mae systemau effeithiol ar waith i rannu gwybodaeth am arferion dyddiol fel bwydlenni byrbrydau a gair Cymraeg yr wythnos. Mae rhieni a gofalwyr yn teimlo bod croeso iddynt yn y lleoliad ac maent yn gwerthfawrogi cyfleoedd rheolaidd i gyfnewid gwybodaeth. Mae arweinwyr yn rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf gyda rhieni a gofalwyr am gynnydd eu plentyn trwy blatfform cyfryngau cymdeithasol yn effeithiol. Mae partneriaeth gref ag athro'r awdurdod lleol wedi cynorthwyo ymarferwyr i werthuso effaith addysgu a dysgu yn y lleoliad.

Mae gan arweinwyr bartneriaeth fuddiol â'r ysgol leol. Er enghraifft, maent yn mynychu'r cyngerdd Nadolig blynyddol ac yn dod yn gyfarwydd â staff a'r pennaeth sy'n ymweld â'r lleoliad yn rheolaidd. Mae trefniadau addas ar waith i blant ymweld â'r ysgol i baratoi ar gyfer dechrau ar gam nesaf eu haddysg. Mae hyn yn sicrhau bod plant yn pontio'n esmwyth ac yn llwyddiannus.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://arolygiaethgofal.cymru) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn gwerthuso effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 13/08/2024

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf.

| Maes i'w Wella / Meysydd I’w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 38 | The responsible individual must ensure adequate precautions, procedures and documentation is in place in relation to fire safety. | Newydd |
| 29 | The responsible individual must ensure all staff receive regular and appropriate supervision and appraisals. | Newydd |
| 30 | The responsible individual must ensure all records within Regulation 30, Schedule 3 are appropriately maintained. | Newydd |
| 28 | There was no evidence of staff files for the service for one practitioner and one volunteer employed and working in the adjoining school | Cyflawnwyd |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall p'un a yw ein hadroddiadau yn darparu gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, cliciwch ar y ddolen ganlynol i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiad arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol am wasanaeth, ewch i'n Tudalen arolygon adborth

**Dyddiad Cyhoeddi** 13/08/2024